# Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2024

## Crynodeb gweithredol

Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth amddiffyn cymunedau ac ecosystemau, ac yn y ffordd rydym yn lleihau'r risg o lygredd sy'n niweidio iechyd pobl, yn difrodi natur, ac yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae ein cylch gwaith rheoleiddio yn cwmpasu ystod eang o fusnesau a diwydiannau – o gwmnïau dŵr i safleoedd rheoli gwastraff. Rydym yn parhau i fod ar flaen y gad o ran ymateb i'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau sy'n deillio o'r argyfyngau hinsawdd a natur. Yn anffodus, rydym yn mynychu nifer cynyddol o ddigwyddiadau, sy'n tynnu sylw at yr effaith sylweddol y mae'r heriau hyn yn ei chael ar y byd naturiol a'n cymunedau.

Rydym yn ymrwymedig i reoleiddio i safonau uchel. Nid yw rheoleiddio effeithiol yn ymwneud â dileu pob risg, ond yn ymwneud â'u rheoli a'u lleihau'n rhagweithiol i leihau niwed amgylcheddol lle bynnag y bo modd. Rydym yn ymdrechu i gyflawni hyn drwy sicrhau bod busnesau'n bodloni gofynion cyfreithiol, asesu ceisiadau am drwyddedau, monitro cydymffurfedd, a defnyddio amrywiaeth o offer gorfodi i fynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon neu nad ydynt yn cydymffurfio ac i atal neu leihau llygredd.

Yn 2024, fe wnaethon ni'r canlynol:

- Cyflawni 3,769 o asesiadau cydymffurfio (cynnydd o 55% o 2023), gan gynnwys cynnydd sydyn mewn gollyngiadau dŵr (i fyny 91%) ac asesiadau adnoddau dŵr (i fyny 92%).
- Cyhoeddi 1,145 o ddarnau o gyngor ac arweiniad i fusnesau (cynnydd o 159%), gan eu helpu i fynd y tu hwnt i gydymffurfedd gofynnol a chyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd.
- Cofnodi bron i 2,500 o achosion o dorri amodau gorfodi, ac mewn ymateb fe gymerwyd camau cymesur i gynnal yr egwyddor mai'r "llygrwr sy'n talu".

Pan fydd digwyddiadau amgylcheddol yn digwydd, rydym yn gweithio'n ddiflino i ymateb – gan atal y difrod, nodi'r achos, a sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu glanhau. Os oes unrhyw doriadau a bod difrod difrifol neu fwriadol yn cael ei wneud, a bod digon o dystiolaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi cymesur i sicrhau bod y llygrwr yn talu.

Fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder, mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'n gweithgareddau rheoleiddio a gorfodi. Mae adroddiad eleni yn ymdrin â meysydd allweddol megis ymateb i ddigwyddiadau, caniatáu a thrwyddedu, monitro cydymffurfedd, troseddau amgylcheddol, gwaith gorfodi, a defnyddio sancsiynau.

Fel sefydliad, rydym wedi gwneud newidiadau er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar feysydd lle gallwn gyflawni'r effaith fwyaf posibl ar gyfer pobl a natur. Symleiddiwyd ein gweithrediadau er mwyn canolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu'r gwasanaethau hanfodol unigryw a gynigir gennym ni. Mae hyn wedi ein galluogi i fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth a fydd yn creu manteision hirdymor i amgylchedd naturiol Cymru ac yn cryfhau ein gallu i gyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol: cefnogi adfer natur, mynd i'r afael â newid hinsawdd, a lleihau llygredd.

Yn cefnogi'r adroddiad hwn mae cyfres o grynodebau gweledol sy'n ymdrin â'r canlynol: Gwastraff a Diwydiant; Tir, Bioamrywiaeth a Physgodfeydd; Ansawdd Dŵr ac Adnoddau Dŵr; a Llifogydd, Cronfeydd Dŵr a'r Môr.

# Ymateb i ddigwyddiadau

Rydym yn ymatebwr Categori 1 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, gyda dyletswydd gyfreithiol i gynnal trefniadau cadarn i reoli ac ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau amgylcheddol. Rydym yn darparu gwasanaeth 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn sy'n cwmpasu llifogydd, llygredd aer, tir a dŵr, pysgodfeydd, troseddau bywyd gwyllt, difrod tir, a digwyddiadau eraill lle rydym yn cynghori'r gwasanaethau brys.

Mae'r gwaith hwn yn ganolog i'n cynllun corfforaethol hyd at 2030 ac Amcan Llesiant 3: Lleihau llygredd, gan sicrhau bod ein camau ataliol ac ymatebol yn amddiffyn yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.

# Ein blaenoriaethau a'n dull gweithredu

Rydym yn blaenoriaethu digwyddiadau sy'n peri'r risg fwyaf i bobl a natur. Bydd ein swyddogion yn ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau arwyddocaol er mwyn lleihau'r risg o niwed. Efallai na fydd digwyddiadau llygredd risg is yn gofyn am ymateb ar unwaith ar y safle; caiff y rhain eu rheoli trwy waith rheoleiddio, gorfodi neu atal, wedi'i arwain gan broses frysbennu, data, a risg amgylcheddol.

Fe wnaethon ni gyflwyno dull mwy targedig o ymateb i ddigwyddiadau sy'n seiliedig ar risg, fel y gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig lle maen nhw'n cael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn cynnwys trin rhai adroddiadau o bell (er enghraifft, dros y ffôn neu drwy e-bost) pan fydd gwneud hynny'n cymesur. Rydym hefyd wedi dileu adborth unigol arferol i ohebwyr i ryddhau amser swyddogion ar gyfer gwaith atal a chydymffurfio, wrth gadw'r opsiwn i gysylltu â gohebwyr lle mae angen rhagor o fanylion.

## Sut rydym yn asesu digwyddiadau

Wrth asesu unrhyw ddigwyddiad, rydym yn ystyried y canlynol:

- y risgiau i iechyd y cyhoedd (gan gynnwys effeithiau ar ansawdd aer, arogleuon, sŵn ac ymbelydredd)
- y risgiau i asedau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyrff tir a chyrff dŵr rydym yn eu rheoli
- effeithiau difrifol ar adnoddau naturiol Cymru (effeithiau ar aer, tir, dŵr, pysgodfeydd a bioamrywiaeth) a'r canlyniadau ar gyfer cadwraeth a'r economi
- llifogydd gwirioneddol neu bosibl
- cynnwys asiantaethau eraill
- diddordeb y cyfryngau neu effeithiau ar enw da

## Gweithgarwch a pherfformiad yn 2024

- Derbyniwyd 12,922 o adroddiadau am ddigwyddiadau yn 2024, cynnydd o 46% ar 2023. Nid oedd tua 20% (2,539) o fewn ein cylch gwaith neu fe'u trosglwyddwyd i sefydliadau partner. Roedd y 10,383 sy'n weddill o fewn y cylch gwaith (cynnydd o 22% ar 2023).
- O'r digwyddiadau o fewn y cylch gwaith, aseswyd 976 fel rhai lefel uchel a 9,407 fel rhai lefel isel. Fe wnaethon ni fynychu 2,118 o ddigwyddiadau i gyd (20%): roedd 45% ohonynt yn ddigwyddiadau lefel uchel a 18% yn ddigwyddiadau lefel isel. Fe wnaethon ni ymateb i 95% o ddigwyddiadau lefel uchel o fewn pedair awr.
- Roedd digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwastraff a dŵr yn cyfrif am 80% (8,288) o'r holl adroddiadau o fewn y cylch gwaith yn 2024; gostyngodd digwyddiadau pysgodfeydd a adroddwyd 11% o'i gymharu â 2023.

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu ein bwriad i flaenoriaethu digwyddiadau sy'n cyflwyno'r risg amgylcheddol neu iechyd cyhoeddus fwyaf ac ymateb yn gymesur, gan gynnwys trwy weithredu o bell lle bo'n briodol. Nid yw peidio â mynychu digwyddiad yn golygu nad ymatebwyd i'r digwyddiad.

Byddwn yn parhau i fireinio ein systemau a'n prosesau i sicrhau bod ein hymatebion yn gymesur, yn seiliedig ar risg, ac wedi'u targedu lle gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf.

## Gweithio gyda'r cyhoedd

Mae adroddiadau am ddigwyddiadau gan y cyhoedd a phartneriaid yn parhau i fod yn hanfodol. Rydym yn annog pobl i barhau i roi gwybod am ddigwyddiadau amgylcheddol i ni ar unrhyw adeg, 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos (ar-lein neu drwy ffonio 0300 065 3000). Mae adroddiadau'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i nodi effeithiau, mynd i'r afael â thorri rheoliadau, ac amharu ar weithgarwch troseddol, gan ein helpu i atal llygredd yn ei darddle.

# Tablau digwyddiadau

**Tabl 1: Digwyddiadau 2024 yn ôl cyfundrefn**

| Cyfundrefn | Cyfanswm y digwyddiadau a adroddwyd yn 2024 | % | Nifer o ddigwyddiadau lefel uchel | Digwyddiadau lefel uchel a fynychwyd | Nifer digwyddiadau | Lefel isel a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pysgodfeydd** | 309 | 3% | 55 | 26 | 254 | 45 |
| **Llifogydd** | 260 | 2% | 61 | 2 | 199 | 14 |
| **Coedwigaeth** | 423 | 4% | 25 | 6 | 398 | 141 |
| **Arall** | 1,103 | 11% | 168 | 56 | 935 | 162 |
| **Gwastraff** | 4,688 | 45% | 40 | 12 | 4,648 | 501 |
| **Dŵr** | 3,600 | 35% | 627 | 332 | 2,973 | 821 |
| **Cyfanswm** | **10,383** | **100%** | **976** | **434** | **9,407** | **1,684** |

**Tabl 2: Adroddiadau o ddigwyddiadau a phresenoldeb rhwng 2020 a 2023**

| Categori'r digwyddiad fesul blwyddyn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer o ddigwyddiadau lefel uchel** | 1,788 | 2,051 | 1,674 | 1,290 |
| Presenoldeb | 374 | 557 | 515 | 512 |
| Canran o'r cyfanswm | 21% | 27% | 31% | 29% |
| **Nifer o ddigwyddiadau lefel isel** | 6,176 | 6,909 | 5,581 | 7,215 |
| Presenoldeb | 1,314 | 1,850 | 1,557 | 1,936 |
| Canran o'r cyfanswm | 21% | 28% | 285% | 27% |
| **Ddim yn rhan o'r cylch gwaith** | 162 | 371 | 1,093 | 435 |
| **Cyfanswm** | **8,126** | **9,331** | **8,348** | **8,940** |

**Mae canrannau'n dangos presenoldeb ar gyfer categori'r digwyddiad*

# Trwyddedau ac esemptiadau

Mae trwyddedau yn rhan hanfodol o'r broses o reoleiddio effeithiol, er mwyn darparu safon ofynnol fel sylfaen i atal niwed amgylcheddol. Rydym yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau a rhoi ystod eang o drwyddedau. Mae hyn yn cynnwys asesu a rhoi trwyddedau gydag amodau i ddiogelu'r amgylchedd ac yna rydym yn gweithio gyda phobl a busnesau ledled Cymru i fonitro sut mae safonau deddfwriaethol yn cael eu bodloni. Pan gydymffurfir ag amodau, mae trwyddedau priodol yn galluogi deiliaid trwyddedau i gyflawni eu gweithrediadau'n ddiogel heb niweidio'r amgylchedd ac yn cynnal chwarae teg i fusnesau cyfreithlon drwy atal gweithredwyr anghyfrifol neu anghyfreithlon rhag gweithredu'n rhatach.

# Trwyddedu

Mae gwybodaeth am sut rydym yn rheoli ceisiadau am drwyddedau a pha mor hir y mae'n ei gymryd i ni eu prosesu ar gael ar ein gwefan. Cyhoeddir ein penderfyniadau trwyddedu amgylcheddol yn fisol.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y trwyddedau a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru / a oedd yn weithredol yn 2024. Mae hyn yn cynnwys mathau o geisiadau, megis cyflwyno cais am drwydded newydd, adnewyddu trwydded, gwneud newidiadau i drwydded gyfredol, trosglwyddo trwydded i rywun arall, neu ildio trwydded nad oes ei hangen bellach. Yn 2024, cafodd 89% o drwyddedau eu prosesu o fewn amserlenni statudol neu lefelau gwasanaeth – mae hyn i fyny o 86% yn 2023.

| **Cyfundrefn** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Perygl llifogydd | n/a | n/a | n/a | 218 | 205 |
| Coedwigaeth | 551 | 498 | 481 | 490 | 467 |
| Gosodiadau | 288 | 349 | 242 | 232 | 232 |
| Ffermio dwys (moch/dofednod) | n/a | n/a | 130 | 127 | 118 |
| Y môr | n/a | 84 | 157 | 173 | 178 |
| Gweithfeydd hylosgi canolig / generaduron penodol | n/a | n/a | n/a | 47 | 53 |
| Sylweddau ymbelydrol / niwclear | 135 | 110 | 113 | 112 | 113 |
| Rhywogaethau | 1,729 | 1,844 | 1,637 | 1,892 | 1,898 |
| Gwastraff | 641 | 669 | 748 | 741 | 745 |
| Adnoddau dŵr | 1,927 | 2,074 | 2,051 | 2,053 | 2,008 |
| Ansawdd dŵr | 235 | 331 | 507 | 384 | 651 |

# Caniatadau a thrwyddedu

Fel rhan o'n rôl o roi caniatâd a chydsyniadau ar gyfer safleoedd gwarchodedig, rhoddwyd 471 o ganiatadau i berchnogion neu feddianwyr yn 2024 a 408 o gydsyniadau i ymgymerwyr statudol Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Ar ddiwedd 2024, roedd gennym 16,577 o gofrestriadau gan gludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff ar ein cofrestr gyhoeddus, cynnydd o wyth y cant o 2023. Mae hyn yn cynnwys 7,010 o ddeiliaid cofrestriadau haen uchaf a 9,567 o ddeiliaid cofrestriadau haen is.

# Esemptiadau

Mae adolygiad diweddar o'r drefn esemptiadau gwastraff wedi arwain at Lywodraeth Cymru a DEFRA yn cynnig newidiadau sylweddol i fynd i'r afael â throseddau gwastraff a pherfformiad gwael yn y diwydiant gwastraff. Bydd rhai esemptiadau yn cael eu dileu, bydd gan eraill amodau newydd, a bydd y rheolau ynghylch cofrestru hefyd yn newid ar gyfer

pob esemptiad. Rydym yn disgwyl i'r newidiadau hyn gael eu rhoi ar waith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Ar ddiwedd 2024, roedd 37,359 o esemptiadau gwastraff wedi'u cofrestru gyda ni mewn 10,887 o leoliadau gwahanol. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 18% o'i gymharu â'r esemptiadau a gofrestrwyd gyda ni yn 2023. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u lleoli ar safleoedd amaethyddol (23,989), gyda'r gweddill wedi'u rhannu rhwng safleoedd anamaethyddol (6,414) a chyfuniad o safleoedd amaethyddol ac anamaethyddol (6,935).

# Cydymffurfedd a pherfformiad gweithredwyr

Mae gwiriadau cydymffurfio yn hanfodol i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau a thrwyddedau. Rydym yn asesu cydymffurfedd ag amodau trwydded trwy archwiliadau ffisegol, ond rydym hefyd yn casglu gwybodaeth o bell, yn dadansoddi adroddiadau, gweithdrefnau, cynlluniau a data gweithredwyr, ac yn cynnal ein gwaith monitro a samplu ein hunain er mwyn asesu perfformiad. O'u defnyddio gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi darlun cyfoethog i ni y gallwn ei ddefnyddio i asesu cydymffurfedd rheoleiddiol a thargedu ein hadnoddau i ddiogelu'r amgylchedd, ein cymunedau a diwydiant cyfreithlon yn well.

Mae'r camau hyn hefyd yn hanfodol yn ein gwaith i ymgysylltu ag endidau a reoleiddir, i addysgu a galluogi cydymffurfedd, i gynnig gwybodaeth a chyngor, ac i osgoi biwrocratiaeth neu gostau diangen. Rydym yn annog blaenoriaethu arferion amgylcheddol cadarnhaol mewn gweithrediadau dyddiol, gan weithio gydag unigolion a busnesau i roi'r amgylchedd yn gyntaf ac i integreiddio arferion amgylcheddol da o fewn dulliau gweithio arferol.

Mae'r tabl isod yn amlygu ein hasesiadau cydymffurfio ar draws sawl cylch gwaith deddfwriaethol rhwng 2020 a 2024.

## Asesiadau cydymffurfedd

| Cyfundrefn | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwastraff a diwydiant** | **828** | **1,096** | **1,155** | **1,119** | **1,237** |
| Gweithrediadau gwastraff | 402 | 506 | 414 | 377 | 427 |
| Gosodiadau diwydiant | 426 | 590 | 679 | 650 | 697 |
| Ffermio dwys (moch/dofednod) | n/a | n/a | 62 | 92 | 113 |
| **Coedwigaeth** | **93** | **417** | **312** | **337** | **390** |
| Hysbysiadau iechyd planhigion statudol | 48 | 326 | 186 | 157 | 205 |
| Archwiliadau trwydded | 30 | 82 | 118 | 165 | 161 |
| Archwiliadau rhybudd | 15 | 9 | 8 | 15 | 24 |
| **Dŵr** | **1,128** | **1,023** | **587** | **748** | **2,083** |
| Adnoddau | 111 | 334 | 113 | 99 | 190 |
| Gollyngiadau | 1,017 | 689 | 474 | 649 | 1,243 |
| Adnoddau dŵr (CoAPR) | n/a | n/a | n/a | 86 | 650 |
| **Llifogydd** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **144** | **59** |
| Trwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd risg uchel | n/a | n/a | n/a | 144 | 59 |

O dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, rydym yn cofnodi ein canfyddiadau mewn adroddiad asesu cydymffurfedd. Mae hyn yn nodi unrhyw achosion o dorri amodau trwydded ac yn nodi camau gweithredu i unioni a/neu leihau'r risg y byddant yn digwydd eto.

Mae pob dogfen sy'n ymwneud â thrwyddedu a chydymffurfedd â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gan gynnwys adroddiadau asesu cydymffurfedd, i'w gweld ar ein cofrestr gyhoeddus ar gyfer y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Yn 2024, fe wnaethom gofnodi:

- 697 o asesiadau ar gyfer adroddiadau asesu cydymffurfedd ar safleoedd gosodiadau. Arweiniodd yr asesiadau hyn at nodi 690 o achosion o ddiffyg cydymffurfio a gofnodwyd yn erbyn trwyddedau gosodiadau, gydag 87% yn cael effaith fach neu ddim effaith amgylcheddol o gwbl.
- 113 o asesiadau ar gyfer adroddiadau asesu cydymffurfedd mewn 94 o safleoedd ffermio dwys. Arweiniodd yr asesiadau hyn at nodi 88 o achosion o ddiffyg cydymffurfio yn erbyn trwyddedau ffermio dwys mewn 27 o safleoedd (29% o safleoedd). O'r achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio, roedd 99% yn cael effaith amgylcheddol fach neu ddim effaith amgylcheddol o gwbl.
- 190 o asesiadau cydymffurfio â trwyddedau adnoddau dŵr, cynnydd o 92% o'i gymharu â 2023. Drwy'r asesiadau hyn, canfuwyd bod 63% (120) yn cydymffurfio.
- 1,243 o asesiadau cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr, sy'n cynrychioli cynnydd o 91% o'i gymharu â 2023. Canfuom fod 50% (626) yn peidio â chydymffurfio. Fe wnaethom gofnodi 763 o doriadau, gan eu categoreiddio yn seiliedig ar eu heffaith amgylcheddol bosibl. Fe wnaethom ystyried 21 o achosion o ddiffyg cydymffurfio i fod yn Gategori 1, a allai gael effaith amgylcheddol fawr, a 97 i fod yn Gategori 2, a allai gael effaith amgylcheddol arwyddocaol. Ystyriwyd bod y 645 arall yn Gategori 3 neu 4, a allai gael effaith amgylcheddol fach neu ddim effaith o gwbl.
- 59 o wiriadau cydymffurfio wedi'u cwblhau ar drwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd. Ystyriwyd bod tri gweithredwr yn methu cydymffurfio ag amodau eu trwydded.
- 1,560 o wiriadau ar gyfer trwyddedau pysgota â gwialen. Roedd y rhain yn cynnwys 1,034 o drwyddedau pysgod bras a brithyllod, 474 o drwyddedau eogiaid a 52 o drwyddedau iau. Roedd cyfradd osgoi talu o dri y cant. Yn ogystal, cynhaliodd ein swyddogion gorfodi ddeg o wiriadau rhwyd, yn cynnwys tri gwiriad o rwydi cwrwgl a saith gwiriad o rwydi sân.
- 650 archwiliadau cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Canfuwyd fod 53% o'r rhain yn methu cydymffurfio ag un neu fwy o ofynion y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, gyda 29 o ffermydd wedi'u nodi fel rhai â deg neu fwy o achosion o ddiffyg cydymffurfio.
- Fe wnaethon ni gynnal mwy na 1,500 o wiriadau cofrestru ar gludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff. Fe wnaethom hefyd gynnal dros 60 o archwiliadau o'r ddyletswydd gofal, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Canolbwyntiodd yr archwiliadau hyn ar safleoedd gwastraff trwyddedig a safleoedd gwastraff esempt, yn benodol gweithredwyr sgipiau, delwyr metel sgrap, a'r rhai sy'n hysbysebu gwasanaethau gwastraff ar-lein. Arweiniodd y gwiriadau hyn at gynnydd yn nifer y bobl yn cofrestru a datgelwyd nifer o weithredwyr gwastraff anghyfreithlon.

- Fe wnaethon ni gwblhau 427 o asesiadau ar gyfer adroddiadau asesu cydymffurfedd mewn 316 o safleoedd gwastraff. Cofnodwyd 124 o achosion o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded mewn 34% o'r gweithrediadau gwastraff a aseswyd gennym.

Rydym yn blaenoriaethu ein hymdrech reoleiddio ar berfformwyr gwael a lle mae risg bosibl o effaith ar yr amgylchedd.  Mae gennym nifer o ddulliau ar gyfer sicrhau bod perfformwyr gwael a gweithredwyr anghyfreithlon yn cydymffurfio neu i leihau eu troseddu. Mae ein polisi gorfodi a sancsiynau yn esbonio sut rydym yn defnyddio'r dulliau hyn.

Rhestrir y gweithredwyr gwastraff a diwydiant hynny a ystyrir yn berfformwyr gwael a pherfformwyr gwael parhaus yn Atodiad 1. Safleoedd sydd wedi bod yn Fand D, E neu F ers o leiaf ddwy flynedd yw'r rhai sy'n perfformio'n wael. Mae perfformwyr gwael parhaus yn safleoedd sydd wedi bod mewn bandiau, D, E neu F ers dros ddwy flynedd neu fwy.

## Astudiaeth achos

Dechreuodd yr achos hwn ar 28 Tachwedd 2018 gyda dyddodiad anghyfreithlon o 5,000 tunnell o wastraff anadweithiol ar dir yn Ynysgeinon, fferm yn Ystalyfera, Abertawe.

Roedd y diffynnydd, Darrell Hopkins, wedi cael cyngor ac arweiniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn flaenorol ar y gofynion trwydded i gydymffurfio â deddfwriaeth gwastraff berthnasol ar gyfer ei weithgareddau arfaethedig ar ei fferm. Ni ddilynodd y cyngor ac arweiniad a roddwyd a chafodd rybudd am ddyddodi'r gwastraff. Cyflwynwyd hysbysiad gorfodi iddo hefyd i gael gwared ar y gwastraff gyda dyddiad cau cydymffurfio o 28 Tachwedd 2019. Newidiwyd yr hysbysiad gorfodi sawl gwaith trwy apeliadau llys, ond pan archwiliodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru y safle eto ar 19 Hydref 2023, nid oedd y diffynnydd wedi cydymffurfio â'r hysbysiad. Yn ogystal, ni wnaed unrhyw gais am drwydded amgylcheddol ac ni ellid dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw ran o'r gwastraff a ddyddodwyd yn 2018 wedi'i symud.

Ar 22 Tachwedd 2024, yn Llys Ynadon Abertawe, llediodd y diffynnydd yn euog i fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi a gyhoeddwyd o dan adran 59 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a chafodd ddirwy o £3,000, gyda chostau o £5,927 a gordal dioddefwr o £1,200.

# Mynd i'r afael â throseddau gwastraff

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn £500,000 drwy grant Llywodraeth Cymru i ariannu gweithgareddau i fynd i'r afael â throseddau gwastraff. Defnyddiwyd y cyllid i greu chwe swydd swyddog amser llawn wedi'u lleoli mewn timau lle rheoleiddio gwastraff, a'u rôl yw datblygu a phrofi dulliau arloesol a all helpu i atal a tharfu ar droseddau gwastraff.

Roedd swyddogion mynd i'r afael â throseddau gwastraff yn rhan o bron i 20% o'r holl ddigwyddiadau troseddau gwastraff a gadarnhawyd. Cynhaliodd y tîm mynd i'r afael â throseddau gwastraff ymyriadau mewn 23 o safleoedd lle nodwyd troseddau. Y gweithgaredd a adroddwyd amlaf oedd llosgi gwastraff, a oedd yn cyfrif am 35% o'r

adroddiadau ledled Cymru, ac yna safleoedd gwastraff anghyfreithlon (32%). Gwastraff adeiladu a dymchwel oedd y llygrydd a nodwyd amlaf mewn digwyddiadau wedi'u cadarnhau. Dros y flwyddyn, digwyddodd 25% o ddigwyddiadau a gadarnhawyd ar safleoedd amaethyddol.

# Taclo Tipio Cymru

Mae Taclo Tipio Cymru yn fenter a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n cal ei chydlynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys amrywiaeth o sefydliadau allweddol, gan gynnwys y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, y gwasanaethau tân, a'r heddlu. Mae Taclo Tipio Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol mewn sawl ffordd, gan gynnwys cefnogi gorfodi a rhannu arfer gorau.

Mae dwy swydd swyddog gorfodi yn Taclo Tipio Cymru – recriwtiwyd i un swydd ym mis Mehefin 2025. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni canlyniadau gorfodi, er mai dim ond yn y Gogledd y mae'r gefnogaeth hon wedi bod ar gael yn fwyaf diweddar. Mae canlyniadau gwaith Taclo Tipio Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn ystadegau awdurdodau lleol a gyhoeddir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru: [Tipio anghyfreithlon].

Rhestrir canlyniadau erlyniadau Taclo Tipio Cymru yn 2024 yn yr adran am erlyniadau gwastraff unigol ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# Rheoleiddio sylweddau ymbelydrol

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y sector sylweddau ymbelydrol niwclear ac anniwclear yng Nghymru.

## Niwclear

Mae dau safle niwclear trwyddedig yng Nghymru:Wylfa a Thrawsfynydd. Mae'r ddau safle yn cael eu gweithredu gan is-gwmni Llywodraeth y DU, Nuclear Restoration Services (NRS). Er nad ydynt yn cynhyrchu pŵer mwyach, mae angen gwaith parhaus i ddatgomisiynu'r safleoedd hyn a bydd hyn yn cymryd blynyddoedd lawer.

Rydym yn cydnabod bod y safleoedd hyn o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd, ac rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid rheoleiddio a'n rhanddeiliaid i sicrhau bod y safonau priodol yn cael eu bodloni a bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu. Rydym yn cynnal gwiriadau rheoleiddiol sy'n cael eu llywio gan Gynllun Cyflawni Canlyniadau Niwclear Asiantaeth yr Amgylchedd, ac yn cyd-fynd ag ef, o dan gytundeb lefel gwasanaeth i gyflawni rheoleiddio niwclear yng Nghymru. Yn ogystal, rydym yn cynnal archwiliadau safle rheoleiddiol ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear i sicrhau bod NRS yn cydymffurfio â'u trwyddedau amgylcheddol ar gyfer y safleoedd hyn.

Yn 2024, cwblhawyd cyfres o arolygiadau â thema a oedd yn cynnwys ffocws ar allyriadau gwastraff nwyol ar safle Trawsfynydd. Fe wnaethon ni hefyd ffurfio tîm prosiect safle

Trawsfynydd i sicrhau bod gennym yr arbenigwyr perthnasol wrth law i asesu'r strategaethau rheoli gwastraff a diogelu dŵr daear a gynigir ar gyfer y prosiectau datgomisiynu arfaethedig ar gyfer y safle. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect i ddymchwel cyfadeilad y pyllau oeri, a fydd yn cynnwys gwarediadau newydd o wastraff ymbelydrol solet lefel isel ar y safle, a phrosiect lleihau uchder y ddau adeilad adweithydd etifeddol. Fe wnaethon ni dderbyn ceisiadau am drwyddedau amgylcheddol i alluogi'r gwaith hwn, ac rydym wrthi'n cydweithio ag NRS i benderfynu ar y trwyddedau hyn.

Ar gyfer safleoedd niwclear newydd, parhaodd gwaith asesu dyluniad generig ac ymgysylltu parhaus gyda'n partneriaid rheoleiddio ar y cyd tan 2024 ar gyfer dyluniadau adweithydd modiwlaidd bach Rolls-Royce Ltd, adweithydd modiwlaidd bach SMR-300 Holtec International, ac adweithydd modiwlaidd bach BWRX-300 GE Hitachi. Fe wnaethon ni hefyd weithio ar raglen ar y cyd o ymgysylltu cynnar gan reoleiddwyr â Last Energy, sy'n cynnig lleoli pedwar micro-adweithydd ar safle Llynfi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid yw Last Energy yn bwriadu mynd i mewn i'r broses asesu dyluniad generig ac, ar hyn o bryd, maent yn ymwneud â thrwyddedu safle niwclear a chael adborth gan yr adolygiad o'r dyluniad rhagarweiniol gyda'r rheoleiddwyr.

Fe wnaethom ddarparu adborth ar yr ymgynghoriad i wasanaeth cynllunio Cymru (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru), a fydd yn asesu adroddiad cwmpasu effaith amgylcheddol Last Energy, sy'n nodi effeithiau amgylcheddol tebygol penodol i'r safle o'r cynnig. Disgwylir i Last Energy ymgysylltu â ni mewn trafodaethau cyn ymgeisio yn y dyfodol agos ac mae'n bwriadu cyflwyno cais am drwydded amgylcheddol weithredol yn haf 2026 (i'w benderfynu).

## Anniwclear

Ar hyn o bryd, mae 113 o drwyddedau wedi'u rhoi i 87 o safleoedd ledled Cymru, sy'n defnyddio ffynonellau ymbelydrol agored (heb eu selio) neu wedi'u selio. Defnyddir ffynonellau agored yn gyffredin yn y sector meddygol ar gyfer diagnosis a thrin afiechydon. Gellir defnyddio ffynonellau wedi'u selio yn y sectorau meddygol a diwydiannol, ond yn fwy cyffredin mewn lleoliadau diwydiannol. Rydym yn rheoleiddio'r rhain o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Yn 2024, derbyniom 14 cais am drwydded ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio sylweddau ymbelydrol ar safleoedd nad ydynt yn safleoedd niwclear. Roedd y rhain yn cynnwys dwy drwydded newydd, ildio dwy drwydded yn llawn, dau drosglwyddiad, ac wyth amrywiad.

Mae ein swyddogion yn cynnal archwiliadau cydymffurfio mewn cyfleusterau sy'n defnyddio, yn dal neu'n gwaredu sylweddau ymbelydrol. Mae pa mor aml y cynhelir arolygiadau ar safleoedd yn dibynnu ar y risg a pha fath o weithrediad sydd yno. Cwblhawyd 35 o archwiliadau trwyddedau yn 2024, sef tua 55% o'r rhaglen a gynlluniwyd. Roedd y prif feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ymwneud â diogelwch a rheoli ffynonellau.

# Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

Yn 2024, roedd 51 o safleoedd COMAH yng Nghymru: 24 yn yr haen uchaf a 27 yn yr haen isaf. Roedd newidiadau yn 2024 yn cynnwys endidau newydd i'r drefn, newidiadau

statws o fewn y drefn, a dau safle yn dad-hysbysu. Mae'r safleoedd rydyn ni'n eu rheoleiddio'n amrywio o gyfadeiladau mawr fel gweithfeydd cemegol, purfeydd olew a gweithfeydd dur, i gyfleusterau fel warysau cemegol a storfeydd nwy LPG bach sy'n gwasanaethu cefn gwlad Cymru.

Yn 2024, gwnaethon ni gyflawni'r canlynol:

- Cwblhau'r asesiad o dri adroddiad diogelwch haen uchaf.
- Cymryd rhan gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn arolygiadau o safleoedd haen uchaf a haen isaf a chynnal rhai ymyriadau yn ein rhinwedd ein hunain. At ei gilydd, cynhaliwyd 38 o ymyriadau, yn cynnwys 31 wedi'u cynllunio a saith heb eu cynllunio. Roedd 11 o'r ymyriadau hynny'n canolbwyntio ar waith asesu llifogydd.
- Ymchwilio i bum digwyddiad arwyddocaol mewn pedwar safle COMAH, ochr yn ochr â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Cwblhau 38 o ymyriadau yn 2024, o'i gymharu ag 14 yn 2023.
- Cwblhau tri asesiad adroddiad diogelwch, o'i gymharu â chwech yn 2023.
- Cyflawni 647 awr o waith COMAH taladwy yn 2024.

Yn ogystal â'n gwaith monitro a sicrhau cydymffurfedd ein hunain, rydym yn parhau i gydweithio â chynrychiolwyr y sector a thrwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud y gorau o gyfleoedd ac adeiladu partneriaethau ystyrlon i ysgogi'r newid trawsnewidiol sydd ei angen arnom.

# Hunanfonitro gan weithredwyr

Mae hunanfonitro gan weithredwyr wedi bod yn rhan o'n gwaith i reoleiddio diwydiant, gan gynnwys cwmnïau dŵr, ers 2010. Mae'r dull hwn wedi ceisio sicrhau bod cwmnïau'n cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain drwy gasglu a dadansoddi samplau o ollyngiadau a ganiateir, sicrhau achrediad ar gyfer dadansoddi, ac adrodd a rhoi gwybod i ni am achosion o dorri amodau trwydded. Cyflwynwyd y dull hwn i helpu i leihau'r baich rheoleiddiol ar fusnesau a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau rheoleiddiol, gan gryfhau a gwella cydymffurfedd yn gyffredinol.

Mae tua 60% o drwyddedau gollwng dŵr yn cael eu dal gan ddau gwmni dŵr: Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Ers 2010, mae'r cwmnïau dŵr wedi cynnal hunanfonitro gan weithredwyr. Rydym hefyd yn cynnal asesiad cydymffurfio blynyddol ar berfformiad amgylcheddol y cwmnïau dŵr, gan gynhyrchu adroddiadau allanol a darparu ffurflenni data i Ofwat a ddefnyddiwyd ganddynt i fonitro eu perfformiad.

- Gweler ein hadroddiad am ddigwyddiadau llygredd cwmnïau dŵr
- Gweler ein hadroddiad asesu ansawdd dŵr
- Gweler ein hadroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru
- Gweler ein hadroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy
- Gweler ein hadroddiadau ar ddata gollyngiadau gorlifoedd storm cwmnïau dŵr

# Diogelwch cronfeydd dŵr

Mae 405 o gyforgronfeydd dŵr mawr yng Nghymru sy’n destun rheoleiddio gennym ni o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Rydym yn adrodd i Weinidogion Cymru bob dwy flynedd am ein gwaith i reoleiddio a gorfodi Deddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae’r tabl isod yn dangos canran y cyforgronfeydd dŵr mawr sy’n cydymffurfio â phob prif ofyniad y gyfraith ar 31 Mawrth 2025.

| Gweithgaredd cronfa ddŵr | Cydymffurfedd |
|---|---|
| Adeiladu | 100% |
| Goruchwyliaeth | 98.6% |
| Archwilio | 99.3% |
| Mesurau diogelwch | 92.1% |
| Cynnal a chadw | 98.9% |
| Monitro | 91.7% |
| Datgomisiynu | 100% |

Mae lefel y cydymffurfedd yn amrywio ar draws y gwahanol fathau o berchnogion. Mae’r tabl isod yn dangos nifer y cyforgronfeydd dŵr mawr sy’n cydymffurfio ac nad ydynt yn cydymffurfio ar gyfer pob math o berchennog ar 31 Mawrth 2025. Nid yw diffyg cydymffurfio yn golygu bod argae cronfa ddŵr yn anniogel, ond mae’n adlewyrchu dull cyffredinol yr ymgymerwr o reoli a gweithredu.

| Math o berchennog | Cyforgronfeydd dŵr mawr sy’n cydymffurfio | Cyforgronfeydd dŵr mawr nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| Cwmni dŵr | 145 | 4 |
| Cwmni cyfyngedig | 89 | 11 |
| Perchennog preifat | 61 | 6 |
| Corff cyhoeddus | 32 | 17 |
| CNC | 38 | 0 |
| Cronfa ddŵr amddifad (heb berchennog) | 0 | 2 |

Mae mwy o wybodaeth yn ein hadroddiadau llawn bob dwy flynedd wedi’u cyhoeddi ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiadau bob dwy flynedd ar ddiogelwch cronfeydd dŵr.

# Gorfodi a sancsiynau

Gwyddom nad yw cydymffurfio bob amser yn digwydd – yn aml ar ddamwain ond weithiau ddim. Pan fydd y rheolau’n cael eu torri, rydym yn cymryd camau gorfodi effeithiol a chymesur i ddiogelu’r amgylchedd a chefnogi ymdrechion i ymateb i’r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae ein dull gorfodi a’n hadnoddau yn cael eu blaenoriaethu lle maen nhw’n gallu gwneud y canlynol:

- atal y drosedd neu sicrhau cydymffurfedd

- newid ymddygiad
- atal troseddau yn y dyfodol
- diogelu ac adfer ein hamgylchedd
- cynnal uniondeb rheoleiddiol

Yn ystod 2024, fe wnaethom gwblhau 876 o achosion, cynnydd o 98% o 2023 (442), gyda 417 arall yn dal i fynd rhagddynt, cynnydd o 7% (2023; 389). Mae hyn oherwydd natur ein gwaith ymchwilio a gorfodi, o ystyried yr amser y gall ei gymryd i ymchwilio i ddigwyddiad, nodi troseddwyr, cael barn gyfreithiol a diweddaru ein systemau. Deilliodd 34% o achosion gorfodi o fynychu digwyddiadau ac roedd 7% o'r achosion yn achosion gwialen a llinell mewn pysgodfeydd. Deilliodd y 59% sy'n weddill o weithgarwch rheoleiddio (cydymffurfio).

Fe wnaethon ni gymryd camau gorfodi yn erbyn 619 o gwmnïau a 636 o unigolion, gan arwain at 80 o erlyniadau llwyddiannus. Ar ddiwedd 2024, fe wnaethom gau 1,717 o achosion. Roedd gennym hefyd 84 o achosion ychwanegol wedi'u rhestru fel rhai "cyfreithiol ar y gweill" a 476 "dan ymchwiliad pellach". Mae dadansoddiad o'r wybodaeth hon ar gyfer 2024 wedi'i nodi isod.

| Math o achos | Achosion wedi eu terfynu | Achosion agored | Cyfanswm 2024 | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pysgodfeydd | 69 | 24 | 93 | 7% |
| Llifogydd | 42 | 9 | 51 | 4% |
| Coedwigaeth | 27 | 36 | 63 | 5% |
| Amaethyddiaeth (yn cynnwys CoAPR/deddfwriaeth arall) | 296 | 118 | 414 | 32% |
| Bioamrywiaeth* | 23 | 17 | 40 | 3% |
| Diwydiant** | 9 | 12 | 21 | 2% |
| Gwastraff | 182 | 92 | 274 | 21% |
| Dŵr | 228 | 109 | 337 | 26% |
| **Cyfanswm** | **876** | **417** | **1,293** | **100%** |

* Ailenwyd y categori bioamrywiaeth (gan gynnwys safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig) o 'Arall' yn adroddiad 2023.

** Mae diwydiant a gwastraff wedi'u gwahanu ar gyfer cyfnod adrodd 2024.

Arweiniodd ein gweithgareddau gorfodi yn 2024 at 2,427 o achosion o dorri amodau gorfodi ar wahân o dan ddeddfwriaeth, cynnydd o 92% o'i gymharu â 2023. Gellir esbonio'r cynnydd mewn cyhuddiadau i raddau helaeth gan ein rhaglen arolygiadau o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y rheoliadau hyn i leihau colli llygryddion o amaethyddiaeth i'r amgylchedd. Arweiniodd ein rhaglen arolygiadau at 1,047 o achosion o dorri amodau gorfodi o dan y ddeddfwriaeth hon yn 2024, o'i gymharu â 260 yn 2023.

Mae'n bwysig nodi nad yw ein data gorfodi yn cynnwys cyhoeddi cyngor anffurfiol y gallem ei gynnig, nac unrhyw fath arall o gyngor neu gyfarwyddyd nad yw'n rhan o gamau gorfodi. Er enghraifft, os caiff ei gynnig yn rhagweithiol neu'n rhagataliol. Mae'r dull hwn yn pwysleisio pa mor bwysig yw cydweithio â phobl a busnesau i atal troseddau amgylcheddol rhag digwydd yn y lle cyntaf neu sicrhau ymateb sy'n amddiffyn yr

amgylchedd i unrhyw drosedd a gyflawnwyd. Mae'n werth nodi bod ein llwyddiant o ran cynnig ymatebion rhagweithiol ac ymgysylltu cynnar yn llai amlwg ac yn anoddach ei fesur.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cyhuddiadau a nodwyd yn ôl math o ddigwyddiad dros y pum mlynedd diwethaf. Y rheswm pam mae mwy o gyhuddiadau na nifer yr achosion yw oherwydd, mewn rhai achosion, mae troseddwr yn wynebu cyhuddiadau lluosog. Gall ein gweithgarwch gorfodi, mewn rhai achosion, rychwantu sawl cyfnod adrodd. Daw hyn yn fwy amlwg pan fydd swyddogion yn cael eu tynnu i mewn i ymchwiliadau cymhleth, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiadau ag asiantaethau gorfodi eraill megis yr heddlu ac awdurdodau lleol. Gall hyn arwain at gyfnod hir rhwng y digwyddiad gwreiddiol a diwedd yr ymateb gorfodi. Dylid bod yn ofalus felly wrth fesur ein perfformiad gorfodi ar sail nifer y canlyniadau ac erlyniadau yn unig.

| **Blwyddyn** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Achosion** | **562** | **981** | **905** | **886** | **1,271** |
| **Cyfanswm cyhuddiadau** | **796** | **1,292** | **1,284** | **1,353** | **2,427** |
| Amaethyddiaeth | 12 | 9 | 27 | 260 | 1,123 |
| Bioamrywiaeth | 49 | 68 | 52 | 66 | 49 |
| Pysgodfeydd | 68 | 92 | 153 | 102 | 104 |
| Llifogydd | 7 | 27 | 49 | 33 | 54 |
| Coedwigaeth | 64 | 128 | 161 | 112 | 76 |
| Diwydiant | 17 | 35 | 29 | 24 | 39 |
| Gwastraff | 322 | 540 | 458 | 429 | 477 |
| Dŵr | 257 | 393 | 355 | 327 | 505 |

Mae gennym ystod eang o ddulliau gorfodi a chosbi ar gael inni, fel yr amlygwyd yn ein polisi gorfodi a sancsiynau. Mae'r dewis o offeryn yn dibynnu ar ddifrifoldeb a natur y drosedd, parodrwydd y troseddwr i gydymffurfio â gofynion rheoliadol, y trothwy tystiolaethol, a ffactorau lles y cyhoedd. Mae ein hopsiynau ymateb i droseddau yn amlinellu'r ystod o ddulliau gorfodi sydd ar gael i ni, gan gynnwys cyngor, rhybuddion, hysbysiadau gorfodi, sancsiynau sifil, ac erlyniad.

Ar gyfer mân droseddau, efallai y byddwn yn canolbwyntio ar addysg, gan ein bod yn aml yn gweld ei bod yn fwy effeithiol i sicrhau dychwelyd i gydymffurfio trwy ddarparu cyngor ac arweiniad. Y nod yw sefydlu gweithredoedd adferol ac atal yr un peth rhag digwydd eto. Trwy ddarparu cyngor a chyfeirio at ganllawiau, ein nod yw helpu cwmnïau ac unigolion i ddeall eu rhwymedigaethau, annog cydymffurfedd gwirfoddol yn rhagweithiol, ac ysbrydoli cwmnïau ac unigolion i gymryd camau blaengar wrth fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol eu gweithredoedd. Hefyd, gellir cyflawni'r camau gwella hyn yn fwy effeithiol. Gallwn hefyd gyhoeddi hysbysiadau ffurfiol, megis hysbysiadau gwella, sy'n gofyn am gamau gweithredu penodol o fewn terfynau amser penodedig, neu rybuddiadau ffurfiol i bwysleisio disgwyliadau o ran cydymffurfio.

Mae'r tabl isod yn amlygu ein defnydd o'r ystod lawn o ddulliau gorfodi a chosbi sydd ar gael i ni, wedi'u cyfuno os oes angen, i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r amgylchedd a chymunedau.

| Canlyniad | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor ac arweiniad* | 180 | 376 | 318 | 442 | 1,145 |
| Llythyrau rhybuddio | 324 | 556 | 514 | 418 | 477 |
| Rhybuddiad ffurfiol | 30 | 44 | 34 | 26 | 36 |
| Erlyniadau: achosion | 46 | 34 | 64 | 87 | 80 |
| Erlyniadau: cyhuddiadau | 85 | 74 | 153 | 143 | 112 |
| Erlyniadau: dirwyon | £124,062 | £332,594 | £659,025 | £692,189 | £146,949** |
| Erlyniadau: costau | £69,8956 | £177,9516 | £148,690 | £113,612 | £86,661 |
| Hysbysiad gorfodi | 37 | 79 | 84 | 40 | 55 |
| Hysbysiad cosb benodedig | 0 | 1 | 8 | 1 | 0 |
| Cosbau sifil*** | 12 | 12 | 10 | 5 | 5 |
| Dirymu trwydded | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Dim camau pellach | 97 | 94 | 53 | 53 | 55 |

* Mae hyn yn cyfeirio at gyngor ac arweiniad neu lythyrau rhybuddio a gyhoeddwyd fel rhan o gamau gorfodi. Felly nid yw'n cynnwys cyngor anffurfiol, na chyngor, arweiniad na rhybuddion a roddwn yn ystod gweithgaredd cydymffurfio a monitro.

** Nid yw dirwyon yn cynnwys dirwy Dŵr Cymru a restrir yn yr astudiaeth achos isod. Bydd hon yn cael ei chynnwys yn ffigurau Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2025.

*** Mae gan CNC ystod gyfyngedig o gosbau sifil ar gael ar hyn o bryd.

Pan fydd achosion difrifol o dorri amodau neu weithgareddau anghyfreithlon yn digwydd, byddwn yn defnyddio camau gorfodi cymesur ac angenrheidiol y gellir eu cyfiawnhau, a all gynnwys erlyn. Er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn llwyddiannus, rydym yn dilyn prosesau llym. Rhaid inni fod yn gymesur a phrofi bod ein gweithredoedd er budd y cyhoedd. Nid ydym yn erlyn heb reswm, ond mae'n ddull ataliol ac amddiffynnol pwysig ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd.

Mae manylion yr unigolion a'r cwmnïau hynny a erlynwyd yn 2024 wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Astudiaeth achos

Cafodd Dŵr Cymru ddirwy o £120,000 a gorchymyn i dalu costau o £70,237.70 ar ôl pledio'n euog i dros 800 achos o dorri amodau ei drwyddedau amgylcheddol i ollwng carthion. Roedd y cyhuddiadau'n ymwneud â data hunanfonitro Dŵr Cymru a gyflwynwyd i ni fel rhan o'i adroddiadau blynyddol 2020 a 2021. Oherwydd nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio, cafodd y cyhuddiadau eu crynhoi yn 18 trosedd er budd y llys.

Ar 16 Hydref 2024, yn Llys Ynadon Llandudno, plediodd Dŵr Cymru yn euog i 15 allan o'r 18 cyhuddiad. Ar 17 Rhagfyr 2024, derbyniodd y cwmni weddill y cyhuddiadau i'w hystyried.

Ers 2010, bu gofyniad ar gwmnïau dŵr i gynnal gwaith hunanfonitro ar eu gollyngiadau elifiant o'u gweithfeydd carthion a'u gweithfeydd trin dŵr. Ar ôl derbyn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2020, nodwyd bod ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd wedi dirywio'n amlwg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gyda dros 600 o dorri amodau wedi'u

cofnodi. Roedd y rhain wedi'u gwasgaru ar draws tua 300 o safleoedd ledled Cymru a Swydd Henffordd.

Mewn cyfweliadau a gynhaliwyd, ac yn eu hamddiffyniad yn y llys, esboniodd Dŵr Cymru mai ailstrwythuro mewnol y tîm samplu a materion amserlennu cysylltiedig â TG, ynghyd ag effeithiau pandemig COVID-19, oedd y prif ffactorau y tu ôl i'r dirywiad.

# Enillion troseddau

Drwy ddefnyddio deddfwriaeth fel y Ddeddf Enillion Troseddau, rydym yn gallu cael arian ychwanegol, gan wella ein galluoedd gorfodi ymhellach a sicrhau bod troseddau amgylcheddol yn cael eu canfod a'u hatal.

Yn 2024, fe wnaethom ddefnyddio arian y Ddeddf Enillion Troseddau i weithredu ein rhaglen camerâu corff ar gyfer swyddogion amgylcheddol rheng flaen a staff gwarantedig eraill. Mae'r rhaglen wedi ein galluogi i amddiffyn ein staff trwy ddefnyddio camerâu corff i gasglu lluniau tystiolaethol o droseddwyr a'u troseddolrwydd cysylltiedig er budd y llysoedd pan fyddwn yn erlyn troseddwyr. Mae hyn wedi gwella'r dystiolaeth orau sydd ar gael o droseddau amgylcheddol, a bydd yn parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau bod troseddwyr yn cael eu dwyn gerbron y llys, gydag erlyniadau addas a chymesur. Fe wnaethon ni hefyd fuddsoddi arian y Ddeddf Enillion Troseddau i recriwtio wyth prentis gorfodi ac ariannu dau swyddog heddlu ar secondiad i gydweithio â ni.

# Cod ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron

Rhestrir isod y gorchmynion ategol y gall llys eu gwneud yn dilyn euogfarn ynghyd â'u defnydd yn 2024 mewn perthynas ag achosion a ddygwyd gennym ni:

**Gweithdrefn un ynad:**
- 53 (gwialen a llinell)

**Dedfrydau o garchar:**
- 0

**Anghymhwyso cyfarwyddwyr:**
- Amherthnasol

**Gorchmynion atafaelu a'r Ddeddf Enillion Troseddau**
- Thomas Jeffrey Lane: enillion troseddol o £78,614.60, gorchymyn atafaelu am £11,280.77, wedi'i gynyddu ar 31 Mawrth 2025

**Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol**
- Amherthnasol

**Fforffedu offer:**
- Amherthnasol

**Gwaharddiad rhag gyrru:**

- Amherthnasol

**Digollediad arall (ac eithrio o dan y Ddeddf Enillion Troseddau)**

- Cyfanswm o £590 mewn gorchmynion digolledu o ganlyniad i beidio â phrynu trwyddedau ar ôl dyddiad y digwyddiad perthnasol

**Atafaelu cerbydau**

- Amherthnasol

**Gorchmynion cymunedol**

- Phillip Johns: gorchmynnwyd i dalu costau o £13,000 a chwblhau 200 awr o waith gwirfoddol

## Astudiaeth achos

**Thomas Jeffrey Lane – Llys y Goron Abertawe (31 Mawrth 2024)**

Yn ystod achos hirhoedlog yn erbyn Jeff Lane, 74 oed o Cartersford, Gŵyr, cafodd ei ganfod yn euog o dorri mwy nag wyth hectar o goetir brodorol yn anghyfreithlon o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr, Abertawe.

Ar 14 Mehefin 2024, gwnaeth Llys y Goron orchymyn atafaelu o dan y Ddeddf Elw Troseddau yn erbyn Mr Lane, a gorchmynnwyd iddo dalu £11,280.77, yn seiliedig ar asesiad y llys o'i asedau oedd ar gael ar y pryd.

Ym mis Rhagfyr 2024, daeth CNC yn ymwybodol bod Mr Lane ar fin cael asedau ychwanegol o werthu eiddo. Gan weithredu ar yr wybodaeth hon, gwnaeth CNC gais i Lys y Goron i gynyddu'r swm y mae'n rhaid i Mr Lane ei dalu o dan y gorchymyn atafaelu gwreiddiol. Ni wrthwynebodd Mr Lane gais CNC ac, ar 31 Mawrth 2025, yn Llys y Goron Abertawe, gorchmynnwyd iddo dalu swm uwch o £78,614.60.

# Trwyddedu ein gweithgareddau ein hunain

Mewn rhai achosion, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu'r broses ar gyfer trwyddedu ein gweithgareddau ein hunain. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud yn benodol â hunandrwyddedu, cydymffurfio a gorfodi, mae *Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau)* 2013 ("y Gorchymyn Swyddogaethau") yn gosod dyletswydd arnom i gael cynllun cyhoeddi, y mae rhan ohono yn ymwneud â hunandrwyddedu.

Lle rydym yn gyfrifol am gyfundrefn reoleiddio, yna byddwn yn cymhwyso'r safonau dilynol i'n ceisiadau ni am drwydded, ein penderfyniadau ynglŷn â'n ceisiadau am drwyddedau, sut rydym yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau mewnol, ein gwaith o asesu cydymffurfedd, a'n hymchwiliadau i droseddau posibl mewn perthynas â'n gweithgareddau

ein hunain. Mae'r safonau hefyd yn berthnasol i weithgareddau trwyddedu, cydymffurfio a gorfodi mewn perthynas â gwaith a wneir gan gontractwyr ar ein rhan.

Mae ein safonau yn sicrhau ein bod yn gwneud y canlynol:

- Rydym yn arfer yr un lefel o graffu a safonau ar gyfer ein gweithgareddau ein hunain â'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer unigolion a busnesau allanol. Yn benodol, rydym yn ceisio defnyddio'r dull hwn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yng nghyd-destun ein polisi gorfodi ac erlyn cyhoeddedig, gan gynnwys dilyn ystyriaethau budd y cyhoedd perthnasol.
- Rydym yn dilyn prosesau penderfynu clir a thryloyw sy'n gadarn pan fyddant yn cael eu herio ac wedi'u dogfennu'n glir.
- Mae lefel briodol o wahanu swyddogaethau rhwng yr uned fusnes sy'n cael ei rheoleiddio a'r tîm sy'n cyflawni'r gwaith rheoleiddio. Mae hyn er mwyn helpu i ddangos tegwch a thryloywder, ac i gefnogi hyder y cyhoedd a Llywodraeth Cymru yn ein penderfyniadau.

Yn ogystal, os byddwn yn methu â chydymffurfio ag amodau neu achosi digwyddiad amgylcheddol, byddwn yn cymryd camau gorfodi priodol yn yr un modd ag unrhyw drosedd amgylcheddol arall. Rydym yn cynnal gwahaniad swyddogaethol a llinell reoli rhwng yr uned weithredol sy'n gyfrifol am y mater a'r tîm rheoleiddio a gorfodi. Mae'r tabl isod yn dangos y camau a gymerwyd yn erbyn CNC ers blwyddyn ariannol 2024/25.

| Cam gweithredu | 2023 i 24 | 2024 i 25 |
|---|---|---|
| Dim camau pellach | 8 | 5 |
| Cyngor ac arweiniad | 5 | 0 |
| Llythyr rhybuddio | 0 | 1 |
| Yn parhau | 2 | 4 |
| Hysbysiad statudol | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **16** | **10** |

# Rhagolwg

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo'n gadarn i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein gweithgareddau rheoleiddio mewn cydweithrediad ag unigolion, cymunedau a busnesau, gyda'r nod cyffredinol o atal a lleihau llygredd. Mae'r amcan hwn yn cael ei gyflawni drwy gymhwyso ein pwerau a'n dyletswyddau statudol yn drylwyr ac yn gymesur. Mae ein timau arbenigol wedi ymrwymo i ddefnyddio cwmpas llawn yr offer deddfwriaethol a'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol cynyddol gymhleth a deinamig yr ydym yn eu hwynebu.

Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella ein heffeithiolrwydd a'n gwydnwch rheoleiddiol yn wyneb pwysau amgylcheddol cynyddol. Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol a gweithredol pwysig yn digwydd a fydd yn cryfhau ein gallu i amddiffyn adnoddau naturiol Cymru ac ymateb yn fwy pendant i niwed amgylcheddol.

Un o'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol sydd ar ddod yw cyflwyno'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig). Disgwylir i'r ddeddfwriaeth hon wella ein pwerau goruchwylio ac ymyrryd rheoleiddiol mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio parhaus ag amodau trwydded

amgylcheddol, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd dŵr. Ar ôl iddo gael ei ddeddfu, bydd fframwaith y mesurau arbennig yn ein galluogi i gymhwyso rheolaethau rheoleiddio wedi'u targedu ar weithredwyr sy'n methu, gan gyflwyno cynlluniau gwella pwrpasol a chynyddu tryloywder ynghylch eu perfformiad. Bydd hwn yn offeryn allweddol yn ein hymdrechion i adfer iechyd afonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol Cymru a bydd yn cynnwys y canlynol:

- Bydd gofyniad cyfreithiol newydd o dan y Ddeddf Mesurau Arbennig Dŵr, cynlluniau ar gyfer lleihau digwyddiadau llygredd, yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr nodi sut y byddant yn lleihau llygredd o bob ased, gan gynnwys gorlifoedd storm. Rydym yn datblygu canllawiau ar gyfer cwmnïau dŵr a byddwn yn eu cyhoeddi erbyn diwedd 2025. Rhaid i gwmnïau dŵr gael cynlluniau ar gyfer lleihau digwyddiadau llygredd ar waith erbyn mis Ebrill 2026. Bydd y cynlluniau hyn yn gosod targedau cyflawni gwelliannau blynyddol ar eu cyfer.
- Rydym wrthi'n ceisio gwneud cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff yn statudol yng Nghymru. Byddant yn rhan allweddol o benderfyniadau cynllunio a buddsoddi hirdymor. Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff cwmnïau dŵr yn uchelgeisiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd â nodau amgylcheddol a hinsawdd ehangach. Byddant yn galluogi cwmnïau dŵr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y 25 mlynedd nesaf, gan fynd i'r afael â heriau fel twf y boblogaeth, capasiti draenio, newid hinsawdd a chydnerthedd asedau.
- Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu hymrwymiadau buddsoddi o fewn Cynllun Rheoli Asedau 8 (2025–2030), wedi'u harwain gan y blaenoriaethau a osodwyd drwy Adolygiad Pris Dŵr 24, sef y broses adolygu prisiau a arweinir gan Ofwat sy'n gosod targedau sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid ar gyfer cwmnïau dŵr. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys lleihau llygredd, diogelu ansawdd dŵr, cynyddu gwydnwch i newid hinsawdd, a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Ein rôl ni yw dwyn cwmnïau i gyfrif a sicrhau bod y ddarpariaeth yn amserol ac yn dryloyw ac yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol go iawn.

Rydym hefyd yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno neu'n diwygio fframweithiau rheoleiddio a pholisi ehangach a fydd yn cefnogi ein hamcanion, gan gynnwys:

- Diwygiadau deddfwriaethol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thrwyddedu amgylcheddol, rheoli maetholion, a'r economi gylchol, a fydd â goblygiadau i sut rydym yn rheoleiddio gweithgareddau gwastraff, dŵr a defnydd tir.
- Datblygiad pellach o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, a fydd yn llunio ein cyfrifoldebau ar gyfer monitro ansawdd aer, rheoli sŵn a diogelu iechyd y cyhoedd.
- Parhau i integreiddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a fydd yn dod â chyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio ac atebion ar sail natur mewn partneriaeth â'r sector amaethyddol.
- Ein gwaith gyda sefydliadau partner i gynhyrchu arweiniad i gwmnïau dŵr i hunanadrodd ystod eang o fathau o ddigwyddiadau llygredd. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i asesu perfformiad cwmnïau dŵr yng Nghymru yn erbyn y rhai yn Lloegr. Byddwn yn cofnodi ac yn ymateb i ddigwyddiadau llygredd yn gyson.
- Byddwn yn tynhau'r fframwaith ar gyfer yr Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol blynyddol o fis Ionawr 2026 ymlaen ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr.

- Byddwn yn creu tîm newydd i gynyddu monitro gollyngiadau cwmnïau dŵr, gwiriadau cydymffurfedd ac archwiliadau. Bydd y tîm hwn yn mabwysiadu dull Cymru gyfan o ymdrin â materion gweithredol er mwyn gwella ein cysondeb rheoleiddio. Bydd y tîm yn nodi tueddiadau perfformiad cwmnïau dŵr ac achosion cyffredin diffyg cydymffurfio. Bydd y tîm newydd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar sail cwmni cyfan yn hytrach na fesul safle, a fydd yn gwella dull cwmnïau dŵr o ddiogelu'r amgylchedd.
- Lle mae gweithredwr yn cynnig ymgorffori atebion ar sail natur fel rhan o'i gydymffurfedd rheoleiddiol a'i ddull gweithredu, byddwn yn sicrhau bod atebion ar sail natur: wedi'u cynllunio a'u dylunio mewn ffordd briodol i gyflawni'r manteision amgylcheddol a geisir, a'u bod yn cael eu cynnal i gyflawni'r manteision amgylcheddol hynny yn yr hirdymor.
- Byddwn yn asesu sut y gallwn leihau faint o faetholion, yn enwedig nitrogen organig toddedig, sy'n cael eu gollwng o'n hafonydd i'r amgylchedd morol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y nodweddion o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol yng Nghymru.
- Yn hydref 2024, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan yr Athro Balmforth yn ei adroddiad ar sut mae diogelwch cronfeydd dŵr yn cael ei reoleiddio. Mae 15 o argymhellion a 52 o is-argymhellion i'w hystyried. Rydym wedi cymryd rhan weithredol yn y rhaglen hon i gefnogi Llywodraeth Cymru, DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd y rhaglen ddiwygio yn pwysleisio bod angen i reoleiddio helpu i sicrhau diogelwch y cyhoedd ac nid dim ond cydymffurfio â'r gyfraith, fel yr adroddwyd yn y ddogfen hon, ac felly mae'n fenter bwysig wrth ddatblygu gwaith diogelwch cronfeydd dŵr. Rydym yn parhau i ddatblygu'r cynigion hyn er mwyn galluogi ymgynghoriad cyhoeddus maes o law.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i wella sut rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu ein hadnoddau rheoleiddio, gyda ffocws mwy llym ar wneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg a defnyddio offer digidol i wella effeithlonrwydd a thryloywder. Mae hyn yn cynnwys datblygiad parhaus dulliau sy'n seiliedig ar ddata i dargedu gweithgarwch cydymffurfio a defnyddio dangosfyrddau ac offer mapio i lywio cynllunio gweithredol.

Rydym yn parhau i wella ein tudalennau gwe ar gyfer rheoleiddio a thrwyddedu. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni cais digidol ar gyfer ceisiadau trwyddedu er mwyn ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr wneud cais am ganiatadau perthnasol, gwella effeithlonrwydd ac ansawdd ceisiadau, a lleihau amseroedd gwneud penderfyniad.

Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn cynrychioli camau sylweddol ymlaen yn ein gallu i gyflawni rheoleiddio amgylcheddol effeithiol a thryloyw sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Wrth i'r galw ar ein gwasanaethau gynyddu, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i addasu ac esblygu, yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, er mwyn sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd hirdymor i Gymru.

# Erlyniadau

Dyma'r achosion a arweiniodd at erlyniad yn 2024. Dechreuodd llawer o'r achosion hyn yn ystod blynyddoedd blaenorol ac, mewn rhai achosion, fe wnaethom erlyn mwy nag un cyhuddiad.

## Gwastraff a diwydiant

### Cwmni

| Dyddiad y canlyniad | Cwmni | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 Mai 2022 | Befesa Salt Slags Limited | Diwydiant | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 4 | £3,660 | £4,240 |
| 5 Ion 2024 | Ammanford Recycling Limited | Gwastraff | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 2 | £42,000 | £4,652 |

### Unigolyn

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 Ion 2024 | Gareth Evan Richards | Gwastraff | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 2 | £373 | £4,762 |
| 16 Chwef 2024 | Timothy Washbourne | Diwydiant | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 2 | £810 | £2,885 |
| 20 Chwef 2024 | Joseph Frederick Jason Thomas | Gwastraff | Deddf yr Amgylchedd 1995 | 1 | £660 | £900 |
| 1 Mawrth 2024 | Steven Billings | Gwastraff | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 3 | £0 | £500 |
| 5 Mawrth 2024 | Jeremy Wells | Gwastraff | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 3 | £320 | £1,500 |
| 10 Gorff 2024 | Mohammed Zishan Ali Hassan | Gwastraff | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 8 | £11,000 | £8,506 |
| 16 Gorff 2024 | Daniel French | Gwastraff | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) | 3 | £400 | £500 |
| 23 Medi 2024 | Kieran Price | Gwastraff | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) | 2 | £281 | £160 |
| 9 Hyd 2024 | Christian Craig Astill | Gwastraff | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 1 | £0 | £1,200 |
| 22 Hyd 2024 | Darrell Hopkins | Gwastraff | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 1 | £3,000 | £5,927 |
| 8 Tach 2024 | James Jones | Gwastraff | Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989 | 1 | £660 | £2,522 |

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 Rhag 2024 | Alan Seymour | Gwastraff | Deddf yr Amgylchedd 1995 | 1 | £180 | £450 |
| 19 Rhag 2024 | Luke David Powell | Gwastraff | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £120 | £650 |

## Coedwigaeth

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 Meh 2024 | Thomas Jeffrey Lane | Coedwigaeth | Deddf Coedwigaeth 1967 | 2 | £1,500 | £0 |

## Bioamrywiaeth

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 Tach 2024 | Darren Michael Coles | Bioamrywiaeth | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | 2 | £3,800 | £11,758 |

## Pysgodfeydd

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 Ion 2024 | Christopher Saunders | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £107 | £100 |
| 17 Ion 2024 | James Thomas | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £100 |
| 17 Ion 2024 | Daniel Monk | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £100 |
| 5 Mawrth 2024 | Sergej Sutov | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 5 Mawrth 2024 | Craig Rees | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 6 Mawrth 2024 | Rolands Bartkevics | Pysgodfeydd | Deddf Eogiaid 1986 | 2 | £300 | £650 |
| 13 Mawrth 2024 | Calum Smith | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £100 |
| 13 Mawrth 2024 | Andrew Edwards | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £100 |
| 18 Mawrth 2024 | Jordan Brown | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £50 | £100 |
| 4 Ebr 2024 | Kyle Campbell | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 Ebr 2024 | Andrew Campbell | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £130 | £127 |
| 4 Ebr 2024 | Nicholas Nash | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 18 Ebr 2024 | Sam Penny | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 22 Mai 2024 | Anthony McCarthy | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 22 Mai 2024 | Liam John Enright | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £127 |
| 22 Mai 2024 | Geraint Parry | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 22 Mai 2024 | Ian Martin Davies | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £127 |
| 22 Mai 2024 | Shaun Dorrington | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £138 | £127 |
| 4 Meh 2024 | Ashley Davies | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £100 | £127 |
| 11 Meh 2024 | Daniel Hook | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £0 | £127 |
| 18 Meh 2024 | Jaroslaw Zygmunt | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 18 Meh 2024 | Sebastian Obrebski | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £116 | £0 |
| 18 Meh 2024 | Kyle Paul Enos | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 18 Meh 2024 | Rhys Mcaley | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 12 Gorff 2024 | Stephen Samuel | Pysgodfeydd | Deddf Eogiaid 1986 (fel y'i diwygiwyd gan adran 229 o Ddeddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009) | 1 | £414 | £2,000 |
| 16 Gorff 2024 | Tomasz Gorczyca | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 16 Gorff 2024 | Steven Bradley | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £100 | £127 |
| 16 Gorff 2024 | Cian Roome | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £20 | £0 |
| 16 Gorff 2024 | Danny Morgan-Pearce | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 16 Gorff 2024 | Joe Owens | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 22 Awst 2024 | Stefan Swistun | Pysgodfeydd | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 | 2 | £345 | £500 |
| 3 Medi 2024 | Stephen McGlinchey | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £163 |
| 3 Medi 2024 | Angharad Clarke | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £194 | £127 |
| 3 Medi 2024 | Matthew Whelan | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £115 | £127 |

| Dyddiad y canlyniad | Enw’r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 Medi 2024 | Terance Powell | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 3 Medi 2024 | Randall Flye | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 3 Medi 2024 | Paul Lewis | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 3 Medi 2024 | Christopher Rowland | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 3 Medi 2024 | Jenny Rowland | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 3 Medi 2024 | Stephen Chard | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £220 | £127 |
| 3 Medi 2024 | Jordan Boddy | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127.30 |
| 9 Medi 2024 | Jamie Jessett | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £440 | £127 |
| 30 Hyd 2024 | Daniel Flynn | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £128 |
| 30 Hyd 2024 | John Wadley | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £73 | £127 |
| 30 Hyd 2024 | Gabriel Burcea | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £440 | £127 |
| 30 Hyd 2024 | Cristin Nicolae | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £440 | £127 |
| 30 Hyd 2024 | Gareth Davies | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £220 | £127 |
| 30 Hyd 2024 | Jamie Thomas Davies | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £126 | £127 |
| 30 Hyd 2024 | Corey Webster | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £0 |
| 30 Hyd 2024 | Tyrone Selby | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 9 Rhag 2024 | Michael Humphreys | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £132 | £127 |
| 9 Rhag 2024 | Reece Thomas Evans | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127 |
| 9 Rhag 2024 | Robert Pluskota | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £132 | £127 |
| 9 Rhag 2024 | Corey Lee James Fuge | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| 10 Rhag 2024 | Rhys Charles Jones | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £128 |
| 10 Rhag 2024 | Ashley Beecham | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £128 |

## Ansawdd dŵr

### Cwmni

| Dyddiad y canlyniad | Cwmni | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 Ion 2024 | Edenstone Homes Limited | Dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £48,000 | £6,572 |
| 25 Meh 2024 | Rhydsais Cyf | Dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 2 | £5,000 | £7,845 |
| 18 Gorff 2024 | Enzos Homes Ltd | Dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £20,000 | £7,389 |

### Unigolyn

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r troseddwr (unigolyn) | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 Mai 2024 | Brian Parry | Dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £265 | £4,442 |
| 31 Gorff 2024 | Huw D H Pritchard | Dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £250 | £850 |

# Atodiad 1

# Gwastraff – perfformwyr gwael

| Trwydded | Enw'r safle | Ardal | Band |
|---|---|---|---|
| HP3938RN | Fenestration Recycling Company Limited | De-orllewin | F |
| BB3298HN | Green Steel Works Ltd | De-ddwyrain | E |
| QB3093HE | Dociau Alexandra | De-ddwyrain | E |
| BB3796FA | The Scrapyard | De-orllewin | E |
| UP3794FZ | Worldcare Wales Ltd | Gogledd-orllewin | E |
| HB3490HK | Abertawe Metals Recycling Ltd | De-orllewin | E |
| CB3091ZE | Chwarel Bryncir | Gogledd-orllewin | E |
| CB3237AP | Gwynedd Skip And Plant Hire Ltd | Gogledd-orllewin | E |
| BB3794ZH | Ty Mawr West Recycling | Gogledd-orllewin | E |
| RP3098FM | Ammanford Metal Recycling | De-orllewin | E |
| ZP3899FX | Merthyr Borough Recycling Centre Ltd – gorsaf drosglwyddo | Canol y De | E |

| Trwydded | Enw’r safle | Ardal | Band |
|---|---|---|---|
| QP3194FY | David Neil | Gogledd-orllewin | D |
| BB3296CU | Mwynglawdd Plwm Frongoch | Canolbarth | D |
| XB3893HN | Taybrite Works | De-orllewin | D |
| AB3998CJ | Worldcare Recycling | Gogledd-orllewin | D |
| KP3095FE | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Woodstock | De-ddwyrain | D |
| AB3090CC | Cyfleuster Treulio Anaerobig Fferm Argoed | Canolbarth | D |
| BP3330LS | Safle Tirlenwi Fferm Tŷ Mawr | Gogledd-orllewin | D |
| AB3698CV | Airfield Metals | De-orllewin | D |
| LB3933AE | Thomas Skip And Plant Hire Ltd | Gogledd-orllewin | D |
| VP3494FK | Melin Plas Du | Gogledd-orllewin | D |
| CB3495FF | Doc y Brenin | De-orllewin | D |
| CB3593HF | Parry and Evans Ltd | Gogledd-ddwyrain | D |
| JP3894FM | The Windmill Site | Gogledd-orllewin | D |
| BB3793ND | Doc Nevill | De-orllewin | D |
| MB3333DG | The Old Forge | De-orllewin | D |

# Gwastraff – perfformwyr gwael parhaus

| Enw’r safle | Ardal | Band | Blynyddoedd fel perfformiwr gwael parhaus |
|---|---|---|---|
| Ammanford Metal Recycling | De-orllewin | E | o leiaf 9 |
| Worldcare Wales Ltd | Gogledd-orllewin | E | 4 |
| AMG Resources Ltd | De-orllewin | D | 4 |
| Jonathan Mark Rees | De-orllewin | D | 3 |
| Green Steel Works Ltd | De-ddwyrain | E | 3 |
| Merthyr Borough Recycling Centre Ltd | Canol y De | E | 3 |
| Gwilym Eirwyn Williams | De-ddwyrain | D | 3 |
| Abertawe Metal Recycling Limited | De-orllewin | E | 2 |
| Worldcare Recycling Limited | Gogledd-orllewin | D | 2 |
| South West Wood Products Limited (Doc y Brenin) | De-orllewin | D | 2 |

# Perfformwyr gwael mewn diwydiant

| Enw’r safle | Ardal | Band |
|---|---|---|
| Safle Tirlenwi Withyhedge | De-orllewin | F |
| Safle Tirlenwi Palleg | De-orllewin | F |
| Alyn Works | Gogledd-ddwyrain | F |
| PB Gelatins | Canol y De | F |
| Cyfleuster Trin Gwastraff Clinigol Wrecsam | Gogledd-ddwyrain | E |
| Tremorfa Melt Shop | Canol y De | E |
| Gwaith Dur Port Talbot | De-orllewin | E |
| Sandycroft Poultry Processing | Gogledd-ddwyrain | E |

| Enw’r safle | Ardal | Band |
|---|---|---|
| Safle Tirlenwi Brookhill | Gogledd-ddwyrain | E |
| Ffatri Byrddau Gronynnau’r Waun | Gogledd-ddwyrain | E |
| Safle Tirlenwi Chwarel Hafod | Gogledd-ddwyrain | E |
| Maelor Foods Limited | Gogledd-ddwyrain | E |
| Safle Tirlenwi Bryn Posteg | Gogledd-ddwyrain | E |
| Safle Tirlenwi Tir John | De-orllewin | E |
| The Creamery | De-orllewin | E |
| Gwaith Bwyd Anifeiliaid Anwes Llangadog | De-orllewin | E |
| Gwaith Silicon y Barri | Canol y De | E |
| Melin Bapur Shotton | Gogledd-ddwyrain | D |
| Gwaith Ffibr Mwynau Queensferry | Gogledd-ddwyrain | D |
| Safle Tirlenwi Docksway | De-ddwyrain | D |
| Safle Tirlenwi Llanddulas | Gogledd-orllewin | D |

# Perfformwyr gwael parhaus mewn diwydiant

| Enw’r safle | Ardal | Band | Blynyddoedd fel perfformiwr gwael parhaus |
|---|---|---|---|
| Gwaith Dur Port Talbot | De-orllewin | E | o leiaf 9 |
| Safle Tirlenwi Chwarel Hafod | Gogledd-ddwyrain | E | o leiaf 9 |
| Safle Tirlenwi Brookhill | Gogledd-ddwyrain | E | o leiaf 9 |
| Safle Tirlenwi Bryn Posteg | Gogledd-ddwyrain | E | o leiaf 9 |
| Gwaith Ffibr Mwynau Queensferry | Gogledd-ddwyrain | D | o leiaf 9 |
| The Creamery | De-orllewin | E | 7 |
| Safle Tirlenwi Palleg | De-orllewin | F | 4 |
| Cyfleuster Trin Gwastraff Clinigol Wrecsam | Gogledd-ddwyrain | E | 4 |
| Alyn Works | Gogledd-ddwyrain | F | 3 |
| PB Gelatins | Canol y De | F | 3 |
| Maelor Foods | Gogledd-ddwyrain | E | 3 |
| Gwaith Silicon y Barri | Canol y De | E | 3 |
| Safle Tirlenwi Withyhedge | De-orllewin | F | 2 |
| Tremorfa Melt Shop | Canol y De | E | 2 |
| Ffatri Byrddau Gronynnau’r Waun | Gogledd-ddwyrain | E | 2 |
| Melin Bapur Shotton | Gogledd-ddwyrain | D | 2 |
| Safle Tirlenwi Docksway | De-ddwyrain | D | 2 |